

# Unigrwydd

## Darllen: Salm 22: 1–2; 6–7

Mae geiriau agoriadol Salm 22 yn ein hatgoffa o eiriau Iesu ar y groes, “Eloï, Eloï, lema sabachthani”, hynny yw, o’i gyfieithu, “Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?” (Marc 15:34). Ac mae’r Salm drwyddi draw yn mynegi profiad y dioddefwr. Mae’n mynegi ei wendid a’i eiddilwch, ‘Pryfyn wyf fi ac nid dyn, gwawd a dirmyg i bobl’ (Salm 22:6), a thrwy hyn ei unigedd, ‘Y mae pawb sy’n fy ngweld yn fy ngwatwar, yn gwneud ystumiau arnaf ac yn ysgwyd pen’ (7). Mae wedi’i fferru gan ofn a braw, ‘y maent yn agor eu safn amdanaf fel llew yn rheibio a rhuo’ (13); ac mae hyn oll yn creu nychdod a salwch iddo, ‘Yr wyf fi wedi fy nihysbyddu fel dŵr, a’ m holl esgyrn yn ymddatod ... yr wyt wedi fy mwrw i lwch marwolaeth’ (14, 15). Beth sy’n digwydd i unigolyn yn y fath gyflwr? Mor hawdd yw syrthio i hunan dosturi a gweld pawb a phopeth yn milwrio yn eich erbyn, nes dod yn y pen draw yn fwrn ar y rhai sy’n gofalu amdanoch, eich teulu a’ch ffrindiau. Pen draw hyn oll yw teimlo’n ddihyder ac anobeithiol gan ofyn ydi’n werth byw fel hyn. Neu, mi fedrwch fyw drwy hyn i gyd a theimlo fod Duw gyda chi, wedi’r cwbl, yng nghanol eich gofidiau a’ch unigedd. Dyma a brofodd y dioddefwr hwn yn y Salm hon.

Yng nghanol ei holl ofidiau, mae’r Salmydd yn sicr o un peth, sef bod Duw yn bod, ‘Eto, yr wyt ti, y Sanctaidd, wedi dy orseddu yn foliant i Israel’ (Salm 22:3). Ac meddai drachefn, ‘oherwydd i’r Arglwydd y perthyn brenhiniaeth, ac ef sy’n llywodraethu dros y cenedloedd’ (28). Mae hefyd yn cofio y bu Duw yn y gorffennol yn gefn i’w bobl, yn cynnwys ei hynafiaid ef ei hun, ‘Ynot ti yr oedd ein hynafiaid yn ymddiried’ (4). Ac meddai amdano ei hunan, ‘Ond ti a’ m tynnodd allan o’r groth, a’ m rhoi ar fronnau fy mam’ (9). Yn y gorffennol, gwelwyd Duw yn achub a gwaredu ac arbed, ac fe all wneud hynny eto. Roedd addoliad y Deml yn Jerwsalem yn atgoffa’r addolwyr o’r tri gair hyn, a’r arweinwyr yn mynnu eu hatgoffa fod Duw wedi gwneud cytundeb neu ‘gyfamod’ â’i bobl. Un ffordd o

atgoffa'r addolwyr oedd dehongli hanes y genedl, er mwyn dangos fod Duw wedi cadw ei ochr ef o'r fargen. Duw 'sanctaidd' yw Duw (3). Golyga hyn fod Duw yn fawr, yn nerthol a hyd yn oed yn beryglus. Credai'r Israeliaid fod Duw yn bresennol lle bynnag y byddai Arch y Cyfamod. Roedd Duw yn llym wrth iddo alw ei bobl i ymddwyn yn gyfiawn a dangos trugaredd. Meddai'r proffwyd Eseia, 'ond dyrchefir Arglwydd y Lluoedd mewn barn, a sancteiddir y Duw sanctaidd mewn cyfiawnder' (Eseia 5:16). Mae Duw yn wahanol; mae ar wahân i'r ddynolryw; ac eto, nid yw wedi cefnu arnom ond y mae'n agos iawn atom, 'Oherwydd fel hyn y dywed yr uchel a dyrchafedig, sydd â'i drigfan yn nhragwyddoldeb, a'i enw'n Sanctaidd: "Er fy mod yn trigo mewn uchelder sanctaidd, rwyf gyda'r cystuddiol ac isel ei ysbryd"' (Eseia 57:15). Gwelwn hefyd fod y gair 'sanctaidd' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r Israeliaid am fod Duw wedi eu galw, fel y mae wedi galw'r Eglwys Gristnogol i fod yn wahanol i'r byd ond eto yn y byd.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydi'r Salm hon yn gysur i ni yn ein gofidiau? Yn eich barn chi, pa elfennau sy'n cysuro?

'Gall Duw helpu'r dioddefwr i wneud yn fawr o'i ddiodefaint.' Beth ydi ystyr hyn?